YR AELOD CABINET DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

DYDD Iau, 8 Mehefin 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd: J. Tremlett (Aelod o'r Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes;
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Rhith-Gyfarfod: 10.00yb - 10.20 yb

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 13EG IONAWR 2023

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 13eg Ionawr, 2023 yn gofnod cywir.

3. Y TÂL SAFONOL AM OFAL PRESWYL GAN YR AWDURDOD LLEOL AM 2023-24.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried cynnig mewn adroddiad bod y tâl safonol am gartref gofal preswyl i bobl hŷn gyda'r Awdurdod Lleol ar gyfer 2023-24 yn cael ei gynyddu o £718.56 i £840.60 am welyau prif ffrwd ac o £953.60 i £990.85 am welyau dementia. Ar gyfer preswylwyr sy'n cael eu lleoli gan yr awdurdod yng Nghartrefi'r Awdurdod Lleol, dyddiad gweithredu'r cyfraddau newydd fyddai 26 Mehefin 2023 ac ar gyfer preswylwyr sy'n cael eu lleoli yng nghartrefi'r awdurdod gan Awdurdodau Lleol Eraill, daeth y newidiadau i rym ar 10 Ebrill 2023.

Nodwyd bod yn rhaid i'r oedolion oedd yn derbyn llety preswyl gyfrannu at gost eu gofal. Os oedd ganddynt adnoddau digonol, roedd yn ofynnol iddynt dalu'r gost lawn am eu llety, sef y Tâl Safonol a gyfrifwyd yn flynyddol ar sail y gost lawn i'r Awdurdod o ddarparu'r llety.

PENDERFYNWYD bod y Tâl Safonol am Gartref Gofal Preswyl i Bobl Hŷn gyda'r Awdurdod Lleol yn cael ei gynyddu o £718.56 i £840.60 am welyau prif ffrwd ac o £935.60 i £990.85 am welyau dementia.

_____ _____

AELOD O'R CABINET **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council